# Ysgol Casmael

***Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence***





12.2.21

Annwyl Rieni,

O'r diwedd mae gennym ni newyddion da i rannu! Ar ôl 10 wythnos arall o aros gartref, rydyn ni'n gallu dechrau agor ein hysgol unwaith eto ar ddydd Llun 22ain o Chwefror i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn unig i ddechrau. Mae manylion pellach yn yr atodiadau.

Mae ein cynllun wedi cael ei ystyried yn ofalus ac mae'n dilyn yr holl ganllawiau i leihau'r lledaeniad o COVID-19.

Mewn byd delfrydol, byddem yn gobeithio mynd yn ôl i'r Ysgol gyda'n trefniadau arferol, ond mae'n rhaid i ni nawr ddilyn yr holl ganllawiau ac argymhellion sydd ar gael i ailagor ein hadeilad yn ddiogel. Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch amynedd tra ein bod ni wedi bod yn aros i Ganllawiau Llywodraeth Cymru i gael ei diweddaru er mwyn i ni rannu ein camau nesaf gyda chi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad i agor i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn unig ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw newidiadau i hyn yna, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Ni fydd yr amserlen rydyn ni wedi'i chreu yn addas i bawb, ond rydyn ni wedi gwneud ein gorau glas i greu cynllun sy'n cwrdd â'r cyfyngiadau sydd nawr ar waith.

Rydym yn annog ein disgyblion i wisgo dillad cyfforddus gan gynnwys esgidiau rhedeg. Yr unig eitemau bydd angen arnynt yn ddyddiol yw potel ddŵr a chôt. Yna bydd y rhain yn mynd adref gyda nhw ar ddiwedd pob diwrnod.

Darllenwch trwy'r daflen i rieni'n ofalus os gwelwch yn dda. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, yna cysylltwch â fi yn syth.

Os yr ydych, fel rhieni, yn dewis peidio ag anfon eich plant nol i'r Ysgol ar hyn o bryd, rhowch wybod i'r Ysgol os gwelwch yn dda. Yn anffodus, ni fydd mwy o dasgau dysgu o bell i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i dderbyn dysgu ar-lein. Gwnewch eich gorau i gefnogi'ch plentyn i fynychu pob sesiwn ar-lein fel y gall athrawon


**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**



cyflwyno gwaith newydd i'r dosbarth cyfan a hefyd fel bod staff yn gallu asesu dealltwriaeth pob disgybl o'r gwaith sydd wedi ei osod.

.

Bydd plant y Gweithwyr Allweddol sydd eisoes wedi'u cofrestru am Hwb yr ysgol yn parhau i fynychu'r ysgol yn ystod yr amser hwn. Fe fydd ceisiadau am lefydd yn cael eu gwneud yn yr un modd. Bydd y disgyblion yma yn ffurfio swigen ar wahân.

Fel rhieni, cefnogwch yr ysgol trwy gadw pellter o 2 fetr wrth eich gilydd tu allan i iet yr ysgol. Gofynnwn hefyd i chi wisgo mwgwd. Mae symud ymlaen unwaith eto trwy gymryd y camau bach hyn tuag at fywyd "normal" yn gamau positif i'n hysgolion, fodd bynnag, cofiwch nad oes unrhyw beth arall wedi newid i ni fel gwlad. Mae negeseuon i rieni gan y Llywodraeth yn glir iawn, dim cwrdd lan i chwarae tu allan i'r Ysgol na gadael plant i gysgu drosodd yn tai ei gilydd, os gwelwch yn dda. Mae rhaid inni barhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein GIG a helpu i achub bywydau.

Darllenwch y wybodaeth yn yr ebost yma'n ofalus. Rwy'n gwerthfawrogi bod llawer i'w gymryd mewn, a dyna pam roeddwn yn awyddus i gael yr holl wybodaeth yma atoch cyn gynted â phosibl.

Rydym yn parhau i fod yn deulu Ysgol agos a chefnogol, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn i bethau weithio hyd eithaf ein gallu.

Cofion gorau,
Amanda Lawrence,
Pennaeth


**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**

# YSGOL CASMAEL

***Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence***


Dear Parents,
At last we have some positive news! After a further 10 weeks of staying at home, we are able to begin to open up our school again, initially to Foundation Phase pupils only. This will commence from Monday 22nd of February, please see the attached timetable.
Our plan has been thought out carefully and follows all the guidance to mitigate the spread of COVID-19.
Whilst in an ideal world we would be back to the way we normally function as a school, we must now follow all of the available guidance and recommendations to reopen our building safely. Thank you for your support and patience, we had to wait for the updated Welsh Government Guidance to be released in order to share our next steps with you.
The Welsh Government have made the decision that Key Stage 2 pupils will not be attending school until further notice. As soon as this changes then we will let you know.
The timetable we have created will not suit everybody, but we have done our very best to create a plan that meets with the restrictions that have been put in place. Please try to keep to the requested timings.
Pupils are encouraged to arrive in comfortable clothes and wearing trainers. The only items they need to bring to school is their water bottle and a coat. These will then go home with them at the end of each day.
Please read through the leaflet for parents carefully, if you have any questions, then get in touch.
If you as parents choose not to send your children back to school, then please let us know. Unfortunately, there will be no further on-line learning provided for Foundation Phase pupils at this time.
Key Stage 2 pupils will continue to receive on-line learning. Please do your best to support your child in attending each online session so that new work can be introduced to the whole class and also so that staff are able to assess each pupil's understanding of the work set.
The children of keyworkers already registered at the school Hwb will continue to attend school during this time. Bookings will be made in the usual way. These pupils will form a separate bubble.
As parents, please support the school by observing a distance of 2 metres from each other whilst at the school gate. We also ask that you wear a mask. It is very encouraging to be able to move forwards once more by taking these small steps, however, please remember that as a country nothing else has changed. Messages to parents from the Government are very clear, no play


**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**



dates or sleep overs please.  We must continue to do everything we can to support our NHS and help to save lives.

I do appreciate there is a lot to take in, which is why I was anxious to get all of this information to you as soon as possible.

We remain a strong and supportive school family and we will continue to work together to make things work to the best of our ability at this time.

With best wishes,
Amanda Lawrence,
Head Teacher.

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321　　　E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**